
GWELLA ANSAWDD Y GOFAL A DDARPERIR I GLEIFION SY'N CAEL DRAEN YN Y FREST NEU ASPIRIAD PLEWROL

Adolygodd NCEPOD y gofal a ddarparwyd i oedolion a dderbyniwyd i'r ysbyty rhwng 01/01/2024 a 31/12/2024, a gafodd ddraen yn y frest neu weithdrefn aspiriad plewrol. Adolygwyd y gofal gan ddefnyddio 978 holiadur clinigwyr, 563 nodiadau achos, 173 holiadur sefydliadol, 697 ymateb i arolwg gan weithwyr gofal iechyd, ac 45 arolwg cleifion.

Gall gwneud penderfyniadau 24/7 yn atal cleifion rhag cael triniaeth ymwthiol diangen

Gyda phenderfyniadau gwell, gallai 82/563 (14.6%) o gleifion fod wedi cael gweithdrefn lai ymwthiol.



Mae llwybrau amgen yn cynyddu nifer y cleifion a gaiff eu trin yn ystod oriau gwaith arferol

Roedd cyfleoedd i wella gofal a'r llwybr dilynol cyn cael eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer 68/563 (12.1%) o gleifion.



Byddai ffurflenni ganiatâd sy'n benodol i weithdrefnau yn sicrhau bod pob claf yn cael gwybodaeth gwell

Cofnodwyd caniadtâd ysgrifenedig ar gyfer 314/563 (55.8%) o gleifion yn unig. Roedd y defnydd o ffurflenni caniadtâd sy'n benodol i weithdrefnau yn gyfyngedig; roeddent ar gael mewn 68/173 (39.3%) o ysbytai yn unig.



Byddai mynediad hawdd at glinigwyr medrus y tu allan i oriau arferol yn sicrhau ymarfer clinigol diogel



Roedd gan 62/173 (35.8%) o ysbytai yn unig brotocol escaleiddio ar gyfer cleifion cymhleth neu gleifion sydd mewn perygl uchel y tu allan i oriau arferol.

Byddai ymgorffori safonau diolgelwch cenedlaethol yn hyrwyddo gofal cyson



Cofnodwyd rhestrau gwirio safonau diogelwch lleol ar gyfer gweithdrefnau ymledol (LocSSIPs) mewn dim ond 182/526 (34.6%) o'r achosion a adolygwyd.

Gall cynllun clir helpu gyda rheoli poen, yn ogystal â monitro a thynnu draen yn y frest

Nid oedd gan 106/440 (24.1%) o gleifion gynllun wedi'i ddogfennu ar gyfer y cyfnod ar ôl triniaeth; ac mewn achosion lle roedd cynllun ar gael, roedd elfennau pwysig – gan gynnwys targedau draenio, cynlluniau monitro, a rheoli poen – yn aml yn cael eu hepgor.

